Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Canllawiau ar y cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4

www.cymru.gov.uk



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 005/2014
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2014

# Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

**Cynulleidfa**

Awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; cyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir; penaethiaid ysgolion uwchradd a gynhelir; cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach; prifathrawon sefydliadau addysg bellach; partneriaid Rhwydweithiau 14–19; Estyn.

**Trosolwg**

Nod y canllawiau statudol hyn yw rhoi manylion ynghylch sut y bydd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Cwriwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) (Diwygio) 2014, yn gweithio yn ymarferol er mwyn bod o fudd i bobl ifanc, yr economi a chymunedau yng Nghymru.

**Camau i'w cymryd**

Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Cwriwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) (Diwygio) 2014, erbyn y flwyddyn ysgol 2014/15.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Cefnogi Pynciau 7–19 Is-adran Cwricwlwm
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6012
e-bost: 14-19@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig**

Gweler Atodiad C.

ISBN digidol 978 1 4734 0938 5
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21026

# Cynnwys


**Crynodeb** 2

**1. Cwricwla lleol 14–16: hyrwyddo mynediad at gyrsiau cyfrwng Cymraeg ac i ba raddau y maent ar gael** 6

**2. Cynllunio'r cwricwlwm lleol: Cyfnod Allweddol 4** 11

**3. Gweithio gyda'n gilydd: trefniadau cydweithio – Cyfnod Allweddol 4** 18

**Atodiad A: Adroddiad ar arlwy'r cwricwla lleol 4 yng Nghyfnod Allweddol** 21

**Atodiad B: Rheoliadau** 24

**Atodiad C: Dogfennau cysylltiedig** 35

# Crynodeb

Mae Mesur Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Cymru) 2009 ("y Mesur") yn darparu'r sylfaen statudol ar gyfer Llwybrau Dysgu 14–19.

Mae'r polisi Llwybrau Dysgu wedi trawsnewid y ddarpariaeth a'r cymorth i ddysgwyr, gan helpu i godi lefel cyflawniad a chyrhaeddiad, paratoi pobl ifanc ar gyfer swyddi sy'n gofyn am sgiliau ar lefel uwch neu addysg uwch a galluogi Cymru i gystadlu yn Ewrop yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae ymgorffori egwyddorion sylfaenol y polisi hwn mewn fframwaith cyfreithiol yn sicrhau y caiff y polisi ei weithredu mewn modd sy'n gyson er lles disgyblion 14–19 oed ledled Cymru.

Cafodd y Mesur gefnogaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar 17 Mawrth 2009 a derbyniodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 13 Mai 2009.

Mae'r Mesur wedi sicrhau bod cwricwla lleol yn cael eu creu a fydd yn cynnwys ystod eang o gyrsiau a chyfleoedd y bydd gan ddysgwyr 14–19[1] oed yng Nghymru yr hawl i ddewis ohonynt. Mae hefyd yn nodi hawl dysgwyr i ddilyn y cwrs astudio a ddewiswyd ganddynt.[2]

Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i lunio cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae hefyd yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn pennu lleiafswm y cyrsiau astudio y dylid eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol a hefyd leiafswm y cyrsiau astudio galwedigaethol er mwyn sicrhau bod cwricwla ardal leol yn cynnwys ystod eang o opsiynau astudio: yn academaidd ac yn alwedigaethol eu natur.

Mae a wnelo'r canllawiau hyn â'r cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4. Bydd Gweinidogion Cymru yn llunio'r cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr ôl-16. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn pennu lleiafswm y cyrsiau astudio y dylid eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol a hefyd leiafswm y cyrsiau astudio galwedigaethol er mwyn sicrhau bod cwricwla ardal leol, fel yng Nghyfnod Allweddol 4, yn cynnwys ystod eang o opsiynau astudio: yn academaidd ac yn alwedigaethol eu natur.

1 Dyma'r bobl ifanc sy'n 14 oed hyd at eu pen-blwydd yn 19 oed (heb gynnwys yr oedran hwnnw).

2 Os bydd y dysgwr yn newid ei ysgol/coleg addysg bellach ar ol gwneud ei ddewis, fodd bynnag, caiff ei haw lei dileu. Os bydd pennaeth neu brifathro neu brifathrawes yn fodlon y bydd y sail a nodir yn adran 9 (Cyfnod Allweddol 4) neu adran 28 (dysgwyr 16–18) o'r Mesur yn gymwys, gall y pennaeth neu'r prifathro neu'r brifathrawes benderfynu nad oes gan ddysgwyr hawl I ddilyn y cwrs astudio a ddewiswyd ganddynt.

## Dyletswyddau awdurdodau lleol

- Bydd pob awdurdod lleol yn gyfrifol am lunio ar gyfer ei ardal un neu ragor o gwricwla lleol ar gyfer disgyblion yng Ngyfnod Allweddol 4.
- Rhaid i bob awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â chwricwla lleol er mwyn hyrwyddo mynediad at gyrsiau astudio sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ba raddau y maent ar gael. O fewn deufis wedi diwedd pob blwyddyn academaidd, rhaid i awdurdod lleol gyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad yn disgrifio'r cyrsiau astudio oedd wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm lleol drwy gyfrwng y Gymraeg; faint o ddisgyblion oedd wedi dewis dilyn cyrsiau o'r fath ac a oedd â hawl i wneud hynny; beth y mae'r awdurdod yn bwriadu ei wneud yn y flwyddyn neu flynyddoedd academaidd a ganlyn fel y rhoddir i'r disgyblion y cyfle i ddilyn cyrsiau astudio'r cwricwlwm lleol sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol neu'r cwricwla lleol (ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a myfyrwyr rhwng 16 a 18 oed) ar gyfer ardal awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol gymryd pob cam a fyddo'n rhesymol er mwyn sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o gyrsiau astudio yn cael eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol.

Bydd hefyd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried cyfres o ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur ac i gydymffurfio â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru.

## Dyletswyddau Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir

- Lle bo gan ddisgybl hawl i ddilyn cwrs astudio (Cyfnod Allweddol 4), rhaid i gorff llywodraethu ysgol y disgybl sicrhau bod y cwrs ar gael i'r disgybl.
- Rhaid i gorff llywodraethu a phennaeth ysgolion a gynhelir gynorthwyo'r awdurdod lleol wrth gynllunio'r cwricwla lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4.
- Mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol neu'r cwricwla lleol ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4, rhaid i gorff llywodraethu ysgol uwchradd a gynhelir gymryd pob cam a fyddo'n rhesymol er mwyn sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o gyrsiau astudio yn cael eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol.

- Rhaid i bennaeth roi dogfen llwybr dysgu i ddisgyblion yr ysgol yn cofnodi ei lwybr dysgu, gan gynnwys y cyrsiau astudio y mae gan y disgybl yr hawl i'w hastudio ac unrhyw wasanaethau i'w darparu i roi cymorth i'r dysgwr.

Os bydd pennaeth yn fodlon, mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch hawliau, y bydd unrhyw sail a nodir yn adran 116F o Ddeddf Addysg 2002, a fewnosodwyd gan adran 9 o'r Mesur, yn gymwys yna gall y pennaeth benderfynu nad oes gan ddysgwr hawl i ddilyn y cwrs astudio a ddewiswyd ganddo.

Yn yr un modd, os bydd pennaeth yn fodlon, mewn perthynas â phenderfyniadau i ddileu hawliau, y bydd unrhyw sail a nodir yn adran 116H o Ddeddf Addysg 2002, a fewnosodwyd gan adran 11 o'r Mesur, yn gymwys yna gall y pennaeth benderfynu nad oes gan ddysgwr mwyach yr hawl i ddilyn cwrs astudio yr oedd ganddo hawl i'w ddilyn yn flaenorol (adran 116H o Ddeddf Addysg 2002, a fewnosodwyd gan adran 11 o'r Mesur).

Bydd hefyd yn ddyletswydd ar benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir i ystyried cyfres o ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur a chydymffurfio â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru.

## Dyletswyddau Prifathrawon a Chyrff Llywodraethu Sefydliadau Addysg Bellach

- Rhaid i gorff llywodraethu a phrifathro/prifathrawes sefydliad o fewn y sector addysg bellach gynorthwyo'r awdurdod lleol wrth gynllunio'r cwricwla lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4.
- Mewn perthynas â'r cwricwlwm lleol neu'r cwricwla lleol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer ardal awdurdod lleol, rhaid i gorff llywodraethu sefydliad o fewn y sector addysg bellach o fewn yr ardal honno gymryd pob cam a fyddo'n rhesymol er mwyn sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o gyrsiau astudio yn cael eu cynnwys mewn cwricwla lleol.

Bydd hefyd yn ddyletswydd ar brifathrawon a chyrff llywodraethu sefydliadau o fewn y sector addysg bellach i ystyried cyfres o ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur a chydymffurfio â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru.

## Canllawiau

Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn o dan adrannau 116B, 116I a 116K o Ddeddf Addysg 2002 fel y'u mewnosodwyd gan Ran 1 o'r Mesur a nodir ynddynt y camau y bydd angen eu cymryd i gefnogi darpariaethau Cyfnod Allweddol 4, sef:

- **Cwricwla lleol: Y Gymraeg**

  Gall canllawiau gael eu rhoi i awdurdod lleol penodol neu i awdurdodau o ddosbarth arbennig neu i awdurdodau yn gyffredinol ynghylch hyrwyddo mynediad at gyrsiau cyfrwng Cymraeg ac i ba raddau y maent ar gael. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru (adran 116B(2) o Ddeddf Addysg 2002).

- **Cynllunio'r cwricwlwm lleol**

  Rhaid i gorff llywodraethu a phennaeth unrhyw ysgol uwchradd a gynhelir gan yr awdurdod a chorff llywodraethu a phrifathro neu bennaeth arall sefydliad o fewn y sector addysg bellach yn ardal yr awdurdod ystyried unrhyw ganllawiau gan Weinidogion Cymru ynghylch cyflawni eu dyletswyddau wrth gynllunio'r cwricwlwm lleol (adran 116I (3) o Ddeddf Addysg 2002).

- **Cydweithio: canllawiau a chyfarwyddiadau**

  Rhaid i awdurdodau lleol, corff llywodraethu unrhyw ysgol uwchradd a gynhelir a chorff llywodraethu sefydliad o fewn y sector addysg bellach yn ardal yr awdurdod ystyried unrhyw ganllawiau gan Weinidogion Cymru ynghylch cyflawni eu dyletswyddau er mwyn sicrhau bod y nifer mwyaf o gyrsiau ar gael (adran 116K(1) o Ddeddf Addysg 2002).

# 1. Cwricwla lleol 14–16: hyrwyddo mynediad at gyrsiau cyfrwng Cymraeg ac i ba raddau y maent ar gael



## Y Cefndir

1.1 Mae ehangu dysgu cyfrwng Cymraeg a dysgu dwyieithog o ran y ddarpariaeth ôl-14 yn un o flaenoriaethau'r Yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn unol ag agenda a dogfen bolisi Llwybrau Dysgu 14–19 sef *Y Wlad Sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith, Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*, (a gyhoeddwyd yn 2010) a *Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth y Gymraeg, 2012–17*.

1.2 Yn unol â Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009, fel y'u diwigiwyd gan Reoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblio yng Nghyfnod Allweddol 4 (Cymru) (Diwygio) 2014, mae'n ofynnol bod lleiafswm o gyrsiau galwedigaethol yn cael eu cynnig mewn cwricwlwm lleol a dylai awdurdodau lleol gadw hyn mewn cof yn arbennig wrth gyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo mynediad at gyrsiau astudio cyfrwng Cymraeg ac i ba raddau y maent ar gael.

1.3 Nod Strategol 2 Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yw "Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus". Mae Deddf Safonau a Thrafnidiaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn statudol ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg fel y gall Llywodraeth Cymru fonitro sut mae awdurdodau lleol yn ymateb ac yn cyfrannu i'r broses o weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a thargedau cysylltiedig.

## Cynllunio ar lefel leol: ALlau a rhwydweithiau 14–19

1.4 Wrth gynllunio a llunio'r cwricwla lleol ar gyfer eu hardal, rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo mynediad at gyrsiau astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac i ba raddau y maent ar gael. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau rhaid i awdurdod lleol ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

1.5 Dylai awdurdodau lleol ddangos eu bod wedi ystyried yn llawn y parhad a'r dilyniant ieithyddol wrth ddatblygu cyrsiau ar gyfer y cwricwlwm lleol yng Nghyfnod Allweddol 4.

1.6 Wrth geisio hyrwyddo mynediad at gyrsiau astudio cyfwng Cymraeg ac i ba raddau y maent ar gael dylai'r awdurdod lleol:

- gefnogi rhwydweithiau wrth sicrhau bod sefydliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael eu cynrychioli'n ddigonol;
- ystyried priodoldeb sefydlu is-grwpiau cyfrwng Cymraeg a fyddai'n gallu ystyried anghenion cynllunio'r sector cyfrwng Cymraeg a'r sector dwyieithog yn fanylach;
- hwyluso creu partneriaethau trawsffiniol rhwng darparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog lle bydd hyn yn cynorthwyo datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog 14–19;
- sicrhau bod gwybodaeth ac arferion da wrth gyflwyno addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysg ddwyieithog yn cael eu rhannu. Lle bo'n briodol, dylid defnyddio Fforymau Rhanbarthol Cyfrwng Cymraeg/Dwyieithog neu strwythurau tebyg.

## Parhad Ieithyddol

1.7 Dylai hybu parhad ieithyddol cyrsiau astudio fod yn rhan annatod o'r gwaith o gynllunio cwricwla lleol yng Nghyfnod Allweddol 4 gan bob awdurdod lleol. Mae'n hanfodol felly y dylai'r awdurdod lleol gymryd yr holl gamau a fyddo'n briodol i sicrhau bod person ifanc sydd wedi astudio rhai o'i bynciau neu ei holl bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cael y cyfle i'w hastudio drwy'r un cyfrwng yng Nghyfnod Allweddol 4. Dylid edrych yn holistig ar ansawdd profiad ieithyddol person ifanc wrth gynllunio'r cwricwlwm lleol. Dylid ystyried yn llawn ddymuniad person ifanc sydd am dderbyn ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg wrth gynllunio sut i ddarparu'r cwricwlwm.

1.8 Er mwyn i gwrs gael ei ddosbarthu'n gwrs cyfrwng Cymraeg mewn cwricwlwm lleol, rhaid i bob agwedd ar y cwrs fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg; sef yr addysgu a'r trefniadau asesu yn eu cyfanrwydd, a'r adnoddau dysgu lle bo'n briodol[3].



[3] Er enghraifft, efallai y tybir mai priodol fyddai defnyddio deunydd gwreiddiol mewn cwrs hanes yn yr iaith wreiddiol.

1.9 Mewn awdurdodau lle nad oes ysgol cyfrwng Cymraeg, dylai'r awdurdod lleol wneud trefniadau gydag awdurdodau cyfagos i sicrhau darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall awdurdodau lleol lle mae ysgolion cyfrwng Cymraeg o fewn eu ffiniau benderfynu mynd ati hefyd i wneud trefniadau o'r fath ar gyfer sicrhau darpariaeth gydag awdurdodau cyfagos ar gyfer rhai disgyblion o fewn ardal yr awdurdod lleol.

1.10 Lle bydd disgybl yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg,[4] yna wrth lunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer yr ysgol honno, rhaid i awdurdod lleol sicrhau y gall y disgybl fanteisio ar gwricwlwm lleol sy'n bodloni'r lleiafswm y mae gan ddysgwyr hawl iddo (fel a nodir yn Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009), fel y'u diwigiwyd gan Reoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 (Cymru) (Diwygio) 2014) drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, er mwyn cydnabod y sefyllfa bresennol lle mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn darparu, ar hyn o bryd, rai cyrsiau drwy gyfrwng y Saesneg, gall y sefydliad gynnwys y cyrsiau hynny wrth gyfrifo'r lleiafswm y mae gan ddysgwyr hawl iddo yn rhan o'r cwricwla lleol.

1.11 Ni ddylid cymryd unrhyw gamau a fyddai'n effeithio'n anffafriol ar gyfran bresennol y cyrsiau cyfrwng Cymraeg a gynigir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dylai unrhyw gynnydd mewn cyrsiau o fewn cwricwlwm lleol a gynigir drwy ysgol cyfrwng Cymraeg felly olygu cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mewn ysgolion a ddiffinnir fel ysgolion cyfrwng Cymraeg category 1 neu ysgolion dwyieithog yng nghategori 2A[5] yn Nogfen Wybodaeth Rhif 023/2007: Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg[6], ni ddylai cynnydd ymddangos yn nifer y cyrsiau Cyfrwng Saesneg.

---

[4] At ddibenion y canllawiau hyn defnyddir y diffiniad ar gyfer ysgolion 'cyfrwng Cymraeg' a geir yn adran 106(4) o Ddeddf Addysg 2002 (gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol) sy'n nodi bod:
*'[…] ysgol yn un Gymraeg os yw mwy na hanner y pynciau a ganlyn yn cael eu haddysgu (yn llawn neu'n rhannol) drwy gyfrwng y Gymraeg –*
*(a) addysg grefyddol, a*
*(b) y pynciau, heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n bynciau sylfaen ar gyfer y disgyblion yn yr ysgol'.*

[5] **Categori 1** – Pob pwnc (gan gynnwys Addysg Grefyddol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol) ar wahân i Saesneg yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl, er y gall rhai ysgolion gyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau bwnc. **Categori 2A** – O leiaf 80% o bynciau, ar wahân i Saesneg a Chymraeg, yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl. Un neu ddau bwnc yn cael eu haddysgu i rai disgyblion drwy'r Saesneg neu drwy'r ddwy iaith.

[6] www.new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/definingschools?lang=cy.



## Gofynion Cofnodi

1.12 Yn unol ag Adran 116B(4) Ddeddf Addysg 2002 rhaid i awdurdod lleol gyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad sydd:–

(a) yn disgrifio'r cyrsiau astudio sydd wedi'u cynnwys o fewn cwricwla lleol a sefydlwyd gan yr awdurdod ar gyfer y flwyddyn academaidd honno a gafodd eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;

(b) yn disgrifio faint o ddisgyblion a ddewisodd[7] ddilyn cyrsiau o'r fath o dan adran 116D a faint o ddisgyblion oedd â'r hawl[8] i ddilyn cyrsiau o'r fath o dan adran 116E;

(c) yn esbonio'r hyn y mae'r awdurdod yn bwriadu ei wneud yn y blynyddoedd academaidd sy'n dilyn y cyfnod y cyfeirir ato yn yr adroddiad fel y rhoddir i ddisgyblion cofrestredig ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod y cyfle i ddilyn cyrsiau astudio sy'n rhan o gwricwla lleol sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.13 Rhaid i'r adroddiadau sydd yn ofynnol o dan y ddarpariaeth hon gael ei gyflwyno o fewn deufis wedi diwedd y flwyddyn academaidd.[9].

1.14 Rhaid i'r cwricwla lleol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol gael eu sefydlu erbyn mis Mawrth bob blwyddyn a bydd arlwy'r cwricwla yn nodi pa gyrsiau astudio a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.15 Mae Gyrfa Cymru Ar-lein[10] yn darparu mecanwaith i gasglu gwybodaeth am gwricwla lleol a dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod yr wybodaeth, gan gynnwys cyfrwng yr iaith, yn cael ei chynnwys ar wefan Gyrfa Cymru Ar-lein.

1.16 Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i gyflwyno adroddiadau awtomataidd a fydd yn fodd i gyflawni'r rhwymedigaethau adrodd o dan 1.142 (a). Dangosir enghraifft o adroddiad o'r fath yn Atodiad A.

[7] Dyma nifer y disgyblion a fydd yn dewis pob cwrs a ddisgrifiwyd yn 1.14(a).
[8] Dyma nifer y disgyblion a fydd yn astudio pob cwrs a ddisgrifiwyd yn 1.14(a).
[9] Gweler erthygl 3 Gorchymyn Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 1 a Ddarpariaeth Drosiannol) 2009, O.S. 2009/3174 (Cy.276).
[10] www.new.careerswales.com/prof.

1.17  Bydd angen i'r ddwy golofn olaf gael eu diweddaru er mwyn rhoi gwybodaeth am nifer y disgyblion a ddewisodd ddilyn y cyrsiau hyn a nifer y disgyblion oedd â'r hawl i ddilyn cyrsiau o'r fath. Bydd  llenwi'r colofnau hyn yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol y rhoddir manylion amdani yn 1.12(b).

1.18  Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn pennu gweledigaeth Llywodraeth Cymru am system addysg a hyfforddi sy'n ymateb i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg  yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013. Mae Atodlen 2 paragraffau 13, 14, 15 a 16 yn nodi'r gofynion o ran darpariaeth 14–19 cyfrwng Cymraeg.

Bydd cyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyflawni'r gofynion cofnodi o dan 1.12(c).

1.19  Yn y blynyddoedd interim, dylai awdurdodau lleol adolygu eu datganiadau a chyflwyno diweddariad blynyddol i Weinidogion Cymru gan sôn am yr hyn a gyflawnwyd o ran eu cynllun tair blynedd a nodi unrhyw newidiadau a wnaed.

# 2. Cynllunio'r cwricwlwm lleol: Cyfnod Allweddol 4



## Y Cefndir

2.1 Nod Llwybrau Dysgu 14–19 yw trawsnewid y ddarpariaeth a'r cymorth a roddir i ddysgwyr, codi cyflawniad a chyrhaeddiad, paratoi pobl ifanc ar gyfer swyddi sy'n gofyn am sgiliau ar lefel uchel neu addysg uwch a galluogi Cymru i gystadlu yn Ewrop yn yr unfed ganrif ar hugain.

## Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009, fel y'u diwigiwyd gan Reoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblio yng Nghyfnod Allweddol 4 (Cymru) (Diwygio) 2014)

2.2 Nod allweddol y Mesur yw gwella deilliannau a chyrhaeddiad dysgwyr 14–19 oed. Prif ddiben y Mesur yw creu hawl i ddysgwyr 14–19 oed yng Nghymru ddewis dilyn cwrs astudio o gwricwlwm lleol. Bydd pob cwricwlwm lleol yn cynnwys amrywiaeth eang o opsiynau astudio, yn academaidd ac yn alwedigaethol. Bydd darparu dewis ehangach o gyrsiau yn helpu i sicrhau bod gan ddysgwyr well cyfle i ddilyn y cwrs astudio sy'n gweddu orau i'w diddordebau, eu dulliau dysgu, eu sgiliau a'u galluoedd unigol; a bydd hefyd yn cyfrannu at well deilliannau ar gyfer dysgwyr.

2.3 Yn unol â rheoliadau[11], gall Gweinidogion Cymru bennu lleiafswm y cyrsiau astudio sy'n ofynnol i lunio cwricwlwm lleol yng Nghyfnod Allweddol 4. Nodir yn Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) Cymru (2009) (y rheoliadau ar gyfer cwricwlwm lleol) y dylai pob cwricwlwm lleol, erbyn 2012, gynnwys lleiafswm o 30 cwrs ac o leiaf 5 cwrs astudio galwedigaethol. Mae Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) (Diwygio) 2014 wedi lleihau'r gofyniad i 25 cwrs, y mae'n rhaid i 3 ohonynt fod yn alwedigaethol.

2.4 Er mwyn sicrhau y caiff dysgwyr ddewis gwirioneddol o 25 cwrs, dylai cwrs sy'n cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg o fewn yr un cwricwlwm lleol gael ei gyfrif fel un dewis. Lle caiff cyrsiau fel TGAU a chyrsiau byr TGAU yn yr un pwnc eu cynnwys o fewn yr un cwricwlwm lleol, dim ond un dewis y dylid ei

[11] www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2009/wsi_20093256_we_1.

gofnodi. Lle caiff Tystysgrif Gyntaf BTEC a Diploma Cyntaf BTEC yn yr un pwnc eu cynnwys o fewn yr un cwricwlwm lleol, dim ond un cwrs y dylid ei gofnodi.

## Llunio cwricwla lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4

2.5 Bydd pob awdurdod lleol yn gyfrifol am lunio ar gyfer ei ardal un neu ragor o gwricwla lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4[12]. Wrth benderfynu a yw'n briodol mabwysiadu model sy'n seiliedig ar glystyrau o gwricwla lleol neu fodel sy'n seiliedi ar un cwricwlwm lleol yn unig ar gyfer ei ardal, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y datblygiadau cydweithio sydd eisoes yn bod o fewn y Rhwydwaith 14–19 a'r rheidrwydd i sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o gyrsiau astudio yn cael eu cynnwys yn y cwricwla lleol. Rhaid i bob cwricwlwm lleol a gaiff ei lunio fodloni isafswm y gofynion a nodwyd yn y rheoliadau ar gyfer llunio cwricwlwm lleol.



2.6 Gallai partneriaethau a threfniadau cydweithio sydd eisioes yn bod ddangos sefydliadau cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a ffydd yn gweithio gyda'I gilydd. Dylai'r awdurdod addysg lleol fod yn sensitive ynghylch y dewis a wneir gan ddysgwyr i fynychu'r sefydliadau hyn a hyrwyddo clystyrau o gwricwla lleol a fydd yn adlewyrchu'r dewisiadau hyn.

2.7 Dylai awdurdod lleol ystyried hefyd pa mor effeithlon ac effeithiol yw model y cwricwlwm lleol. Dylai hyn gynnwys ystyried ffactorau ymarferol a logistig. Dylid sicrhau mai ystyriaeth ganolog unrhyw broses ar gyfer dewis model priodol ar gyfer y cwricwlwm lleol fydd yr angen i wella deilliannau i ddysgwyr.

## Dyletswydd i gynorthwyo'r awdurdod lleol wrth gynllunio cwricwla lleol

2.8 Rhaid i gorff llywodraethu a phennaeth unrhyw ysgol uwchradd a gynhelir, ac eithrio ysgolion arbennig cymunedol neu ysgolion arbennig ffydd, gynorthwyo'r awdurdod lleol wrth gynllunio'r cwricwla lleol.[13]

[12] (adran 116A o Ddeddf Addysg 2002).
[13] (adran 116I o Ddeddf Addysg 2002).

2.9  Yn yr un modd, rhaid i gorff llywodraethu a phrifathro/prifathrawes neu bennaeth arall sefydliad o fewn y sector addysg bellach yn ardal yr awdurdod lleol gynorthwyo'r awdurdod lleol wrth gynllunio'r cwricwla lleol.

2.10  Mae cynllunio'r cwricwla lleol yn golygu'r broses a ddefnyddir gan awdurdod lleol, drwy ymgynghori â'i bartneriaid, i benderfynu pa gyrsiau astudio i'w cynnwys yn y cwricwla lleol.

## Cydweithio ar draws ffiniau

2.11  Gall fod o fantais i'r rheini y mae'n rhaid iddynt gynorthwyo'r awdurdod lleol i gynllunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer ei ardal[14] – "cynllunwyr cwricwla lleol" – ystyried rhannu neu gynnwys darpariaeth gyda darparwyr addysgol y tu allan i'r awdurdod lleol. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gall hefyd fod yn berthnasol i rai sefydliadau y gall eu hysgol neu eu coleg addysg bellach agosaf fod mewn awdurdod lleol cyfagos.

## Rôl y Rhwydwaith

2.12  Mae'r Rhwydweithiau 14–19[15] wedi gweithio i ymestyn y dewis o gyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr o fewn eu hardal eu hunain a sicrhau cyfleoedd priodol i'r dysgwyr fynd yn eu blaen. Dylai'r awdurdod lleol ddefnyddio'r Rhwydwaith 14–19 yn llawn wrth lunio cwricwlwm lleol. Bydd hyn yn sicrhau na fydd datblygiadau ac ystyriaethau yn cael eu cyfyngu i ddysgwyr 14–16 oed ond, yn hytrach, yn cael eu hymestyn i'r ystod oed 14–19 er mwyn hyrwyddo parhad a chydlyniant ar gyfer dysgwyr.

## Cyfrifoldebau cyffredinol ar gyfer addysg

2.13  Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod lleol i sicrhau bod digon o ysgolion yn eu hardal i roi'r cyfle i bob disgybl fanteisio ar addysg briodol[16]. Ystyrir bod addysg yn briodol os yw'n cynnig yr amrywiaeth o ran cyfarwyddyd a hyfforddiant ag a ystyrir yn ddymunol yng ngoleuni gwahanol oedran, galluoedd a doniau

[14] Adran 116I o Ddeddf Addysg 2002.

[15] Mae Rhwydwaith 14-19 yn partneriaeth strategol o ddarparwyr addysg, yr awdurdod lleol a sefydliadau eraill yn y sectorau statudol a gwirfoddol yn gweithio tuag at wella deilliannau dysgwyr 14-19.

[16] (adran 14 o Ddeddf Addysg 1996).




disgyblion. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol. Bydd angen i gynllunwyr cwricwla lleol fynd i'r afael â'r cyfrifoldebau ar gyfer addysg, ynghyd â gofynion y rheoliadau ar gyfer llunio cwricwlwm lleol.

2.14 Nodir yn y rheoliadau ar gyfer llunio cwricwlwm lleol y bydd yn rhaid i bob cwricwlwm lleol gynnwys lleiafswm o 25 cwrs lefel 2[17].

2.15 Rhaid i gynllunwyr y cwricwla ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol; Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002 a'r Canllawiau ar Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion 2006.

2.16 Dylai dysgwyr na allant astudio cyrsiau lefel 2 oherwydd eu hanghenion dysgu ychwanegol gael y cyfle i ddilyn cyrsiau a ddewiswyd ganddynt a fydd yn caniatáu iddynt fynd yn eu blaen yn hyderus tuag at gymwysterau lefel 2. Lle nad yw hyn yn bosibl oherwydd difrifoldeb anghenion yr unigolyn, dylai'r cyrsiau arwain at sicrhau y gall yr unigolyn fyw'n annibynnol a gweithio o fewn y gymuned.

2.17 Dylid cynnig ystod briodol o gyrsiau o dan lefel 2 i ddiwallu anghenion dysgwyr y bydd y rhaglenni hyn fwyaf priodol ar eu cyfer.

## Cynllunio'r cwricwlwm

2.18 Dylai diddordeb y dysgwr a'r galw fod yn ffactor allweddol wrth benderfynu ar y cwricwlwm lleol. Dylai cynllunwyr fod yn ymwybodol y bydd yn rhaid i gwricwlwm lleol fod yn atyniadol i bobl ifanc er mwyn llwyddo. Bydd arolygon a gafodd eu cynnal ymysg dysgwyr, lle maent ar gael, yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth am ddiddordebau a dewisiadau dysgwyr lleol. Os nad oes arolygon ymysg dysgwyr ar gael dylai cynllunwyr cwricwla ddod o hyd i ffyrdd eraill o ganfod gwybodaeth o'r fath. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys creu sampl o farn dysgwyr.

[17] Lle na ellir cynnig Lefel 2 cyn 16 oed, er enghraifft oherwydd gofynion iechyd a diogelwch, ystyrir mai'r cwrs fydd y cymhwyster perthnasol ar lefel 1.

2.19  Wrth gynllunio cwricwla lleol, dylai Penaethiaid, Prifathrawon a Chyrff Llywodraethu ynghyd â'u hawdurdod lleol ystyried yr wybodaeth sydd ar gael am y farchnad lafur a blaenoriaethau lleol a rhanbarthol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau'r economi a'r sector busnes at y dyfodol yn cael eu hadlewyrchu a bod dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau a chymwysterau addas at sefyllfa waith. Dylid defnyddio hefyd, ymhlith ffynonellau eraill o wybodaeth, wybodaeth sydd ar gael mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

2.20  Dylai'r cynllunwyr geisio sicrhau bod darparwyr cwricwla lleol yn symud fwyfwy tuag at leihau dyblygu diangen ar y ddarpariaeth. Gall dyblygu gael ei ystyried yn ddiangen lle bydd yn arwain at ormod o gapasiti o fewn ardal cwricwlwm lleol penodol. O dan amgylchiadau o'r fath, gall y ddarpariaeth gael ei darparu'n fwy effeithiol gan un ysgol neu sefydliad sy'n bartner ar ran eraill o fewn y clwstwr. Dros gyfnod o amser, gallai addasiadau o'r fath helpu sefydliadau unigol wrth gynnig y nifer uchaf posibl o gyrsiau y gallant eu cynnig i'w dysgwyr. Gallai hyn gael ei gyflawni, er enghraifft, drwy ryddhau adnoddau ar gyfer cwricwlwm a fydd wedi'i ehangu o ganlyniad i gydweithio rhwng sefydliadau.

2.21  Wrth gomisiynu neu ddatblygu cwrs newydd i'w gynnwys mewn cwricwla lleol, dylai'r cynllunwyr ystyried y cydbwysedd yn y cwricwlwm a nodi'r meysydd neu'r pynciau nad ydynt o bosibl wedi'u datblygu i'r un graddau o fewn y cwricwla lleol. Dylid ystyried hefyd yr angen i ddatblygu cyrsiau mewn meysydd lle mae darpariaeth eisoes yn bod os yw'r galw am y cyrsiau hynny yn cynyddu.

2.22  Dylid rhoi sylw arbennig i gyrsiau sydd wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm lleol dros unrhyw gyfnod blaenorol o ddwy flynedd ond na chawsant mo'u cynnal. Ni ddylai cynllunwyr cwricwla gynnwys darpariaeth o'r fath mewn cwricwlwm lleol dro ar ôl tro heb reswm dros gredu y byddai'r cwrs yn denu digon o ddysgwyr i'w gynnal.



## Arlwy y gellir ei wireddu o ran y cwricwlwm

2.23 Rhaid i bob cwrs o fewn cwricwlwm lleol fod o fewn cyrraedd pob disgybl y mae'r cwricwlwm lleol hwnnw yn berthnasol iddo. Mae hyn yn cynnwys trefniadau teithio lle bo angen. Fodd bynnag, dylai cynllunwyr cwricwla ymchwilio'n llawn i'r posibilrwydd o ddefnyddio technolegau modern i arbed dysgwyr rhag gorfod teithio a hefyd i atal symudiadau ymhlith darparwyr y cwrs yn y lle cyntaf. Lle bydd cynllunwyr o'r farn bod teithio yn hanfodol i sicrhau dewis ehangach, dylent geisio cyfyngu ar hyn gan gynnig trefniadau i weithio diwrnod cyfan neu hanner diwrnod lle bo'n bosibl.

## Ansawdd y ddarpariaeth

2.24 Dylai ansawdd y profiad dysgu fod yn ystyriaeth sylfaenol wrth gynllunio'r cwricwla lleol. Dylai cynllunwyr sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth a gynigir o fewn cwricwlwm lleol ar y cyd neu a rennir yn bodloni'r trothwyon priodol o ran ansawdd fel y'u diffinir o fewn y fframwaith arolygu cyffredin. Dylai'r ysgol sefydlog[18] sicrhau bod prosesau ansawdd priodol yn eu lle ar gyfer unrhyw gwrs ar y cyd y bydd eu disgyblion yn eu hastudio. Gallai ffynonellau gwybodaeth i'w ddefnyddio gydag ystyriaethau o'r fath gynnwys arolygiad ddiweddaraf Estyn, data ynghylch cyrhaeddiad neu werth a ychwanegwyd gan y darparwr dysgu ac adroddiad hunanasesu yn y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Rhanbarthol neu gan y darparwr dysgu.

## Bod yn ddiduedd

2.25 Dylai gwybodaeth gael ei rhoi mewn dull sy'n gwbl ddiduedd a dylai cyngor gael ei roi er mwyn hyrwyddo buddiannau gorau'r person ifanc ac nid mewn modd sy'n hyrwyddo buddiannau neu ddyheadau unrhyw ysgol, sefydliad neu unigolyn neu gorff arall yn groes i fuddiannau gorau'r person ifanc dan sylw. Wrth baratoi deunyddiau i'w defnyddio gan ddysgwyr wrth ddewis cyrsiau felly dylid rhoi'r un tegwch i gyrsiau sy'n cael eu darparu ar y cyd a chyrsiau nad ydynt yn cael eu darparu ar y cyd.

[18] Yr ysgol sefydlog yw'r ysgol lle bydd y disgybl wedi'i gofrestru.

## Y broses ar gyfer cyrsiau sy'n cael eu darparu ar y cyd

2.26 Dylai cynllunwyr cwricwla ddatblygu prosesau a phrotocolau cytûn ar gyfer darpariaeth ar y cyd er mwyn darparu cymorth a sicrhau eglurder wrth weithio mewn partneriaeth. Fan leiaf, dylent bennu rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau sy'n bartneriaid wrth gynnig darpariaeth ar y cyd.

2.27 Mae rhai Rhwydweithiau a phartneriaethau eisoes wedi datblygu ac mae ganddynt brosesau a phrotocolau cynhwysfawr; mae gan eraill gytundebau lefel gwasanaeth effeithiol. Efallai y bydd cynllunwyr cwricwla am ddefnyddio'r rhain yn sail i'w gwaith hwy ond dylent eu bodloni eu hunain y bydd unrhyw brosesau y byddant o bosibl yn eu mabwysiadu yn briodol ac yn ddigonol ar gyfer eu hardal. Dylai pob partner allweddol fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu unrhyw brotocolau neu brosesau.

# 3. Gweithio gyda'n gilydd: trefniadau cydweithio – Cyfnod Allweddol 4

## Sicrhau'r nifer mwyaf o gyrsiau astudio a threfniadau cydweithio

3.1 Un o amcanion allweddol Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yw sicrhau'r nifer mwyaf o gyrsiau astudio sydd ar gael i'w cynnwys mewn cwricwlwm lleol. Ceir darpariaeth yn Adran 116J o Ddeddf Addysg 2002, fel y'i mewnosodwyd yn adran 13 o'r Mesur, fod y ddyletswydd hon yn cynnwys, ymhlith dyletswyddau eraill, ddyletswydd i ymrwymo i drefniadau i gydweithio lle bo'r unigolion perthnasol, yr awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach o'r farn y byddai'r amcan hwnnw yn cael ei hybu ymhellach o ymrwymo i drefniadau o'r fath.

3.2 Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i gymryd ***pob cam rhesymol*** rhesymol i sicrhau bod y nifer mwyaf o gyrsiau astudio ar gael o fewn y cwricwlwm lleol. Dylai hyn sicrhau y bydd gan y dysgwr y dewis ehangaf posibl o gyrsiau o'r cwricwlwm lleol.

3.3 Cyfeiria'r darpariaethau hyn at greu'r dewis mwyaf posibl i ddysgwyr o fewn cwricwlwm lleol. Dylid mynd ati i sicrhau'r dewis ehangaf posibl yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael.

3.4 Wrth ystyried a fydd ymrwymo i drefniadau i gydweithio yn golygu y bydd yr amcan yn cael ei hyrwyddo ymhellach, bydd angen dilyn y camau perthnasol er mwyn ystyried sut y gellid gwella'r ystod o gyrsiau a sut y gallai ymrwymo i drefniadau i gydweithio arwain at anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu'n well. Ni fwriedir i'r cydweithio rhwng darparwyr fodoli er ei fwyn ei hun ond er mwyn gwella cyfleoedd dysgu a phrofiadau pobl ifanc.

3.5 Wrth geisio manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael mae nifer o gamau y gellir eu cymryd sef:

i. **Cam 1:** Wrth nodi'r adnoddau sydd ar gael i lunio'r cwricwla lleol, cynnwys yr ystod o gyrsiau sydd eisoes ar gael mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach.



ii. **Cam 2:** Ystyried goblygiadau llawn ymrwymo i drefniadau i gydweithio neu beidio ag ymrwymo i drefniadau o'r fath o ran adnoddau[19]. Dylai hyn gynnwys cyfiawnhad economaidd gwrthrychol i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ac ystyried a ellid gwella'r defnydd a gâi ei wneud o'r adnoddau sydd ar gael (yn ddynol, yn gorfforol ac yn ariannol) drwy gydweithio. Yn ogystal â hynny, dylid ystyried a fyddai trefniadau i gydweithio yn arwain at ryddhau mwy o adnoddau o'r fath dros gyfnod o amser. Gellir gwneud trefniadau cydweithio o'r fath gydag ysgolion eraill, sefydliadau addysg bellach neu ddarparwyr hyfforddiant.

iii. **Cam 3:** Llunio arlwy cwricwla lleol sy'n ymarferol yn economaidd ac sy'n bodloni'r gofynion lleiaf neu'n mynd y tu hwnt i'r gofynion hynny o dan y Mesur ac sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

iv. **Cam 4:** Asesu a yw'n bosibl ymestyn y cwricwla lleol a gynlluniwyd sydd ar gael i rai dysgwyr o fewn y flwyddyn gynllunio heb gyfaddawdu ar y cwricwla lleol a gynlluniwyd sydd ar gael i ddysgwyr eraill o fewn y flwyddyn gynllunio. Golyga hyn ystyried, lle mae nifer o gwricwla lleol o fewn ardal, a ellid sicrhau bod cyrsiau sydd ar gael mewn mwy nag un cwricwlwm lleol ar gael i ddysgwyr dros gyfnod o amser.

3.6 Os oes modd ehangu'r cwricwla lleol sydd ar gael ar gyfer rhai dysgwyr heb leihau'r cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr eraill yna ni wnaed y defnydd mwyaf o'r cwricwlwm lleol sydd ar gael yn ystod y flwyddyn benodol dan sylw.

3.7 Os nad oes modd ehangu'r cwricwla lleol ar gyfer rhai dysgwyr, o fewn yr adnoddau sydd wedi'u neilltuo, heb gyfaddawdu ar y cwricwla lleol sydd ar gael i ddysgwyr eraill, yna gellir dweud y gwnaed y defnydd mwyaf o'r cwricwlwm lleol sydd ar gael yn ystod y flwyddyn benodol dan sylw.

3.8 Dylai'r corff llywodraethu ddangos ei fod wedi mynd i'r afael â'r camau yn 3.5. At hynny, wrth asesu arlwy'r cwricwlwm dylid ystyried ansawdd y profiad dysgu sydd ar gael yn yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach unigol. Yn arbennig, dylid ystyried a ellid darparu ystod ehangach o gyrsiau, o well ansawdd o bosibl, drwy drefniant i gydweithio.

[19] Bydd trefniant i gydweithio yn bod lle bydd dau gorff neu ragor yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cwrs neu gyrsiau astudio ar gyfer dysgwr neu ddysgwyr.

3.9 Yn arferol, dylai trefniadau cydweithio arwain at fanteision o ran gwneud defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac o ran rhyddhau adnoddau. Disgwylir y bydd corff llywodraethu yn gallu sicrhau bod y nifer mwyaf o gyrsiau ar gael o fewn cwricwla lleol drwy ymrwymo i drefniadau cydweithio ac y bydd trefniant cydweithio neu drefniadau cydweithio yn cael eu ffurfio. Rhaid i gorff llywodraethu nad yw am ymrwymo i drefniadau o'r fath ddangos iddo roi ystyriaeth briodol i drefniadau o'r fath a bod ganddo gyfiawnhad gwrthrychol am beidio ag ymrwymo i drefniadau o'r fath.

3.10 Mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am lunio'r cwricwla lleol yng Nghyfnod Allweddol 4. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn nad yw ysgol yn gwneud y defnydd mwyaf o'r cwricwla lleol sydd ar gael yna dylai ysgrifennu at yr ysgol yn datgan y farn honno. Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, lle nad yw ysgol yn cydweithio gyda sefydliadau eraill neu lle bo'r enghreifftiau o gydweithio yn brin iawn.

3.11 Dylai'r ysgol a fydd yn derbyn datganiad ysgrifenedig o'r fath yn mynegi barn yr awdurdod lleol baratoi ateb ysgrifenedig a fydd yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan yr awdurdod lleol.



3.12 Dylai'r ysgol a'r awdurdod lleol geisio datrys yr anghytundeb drwy ddeialog rhwng yr awdurdod lleol a'r sefydliad yn seiliedig ar ymatebion ysgrifenedig y ddwy ochr. Lle na ellir dod i gytundeb dylai'r awdurdod lleol anfon yr holl ddogfennau ysgrifenedig at aelodau'r tîm Cefnogi Pynciau 7–19 yn AdAS.

3.13 Mae'n bosibl i Weinidogion Cymru ofyn i awdurdod lleol a/neu ysgol asesu a chyfiawnhau'r camau a gymerwyd ganddynt mewn perthynas ag ehangu'r cwricwlwm lleol petai, er enghraifft, bryderon a oes digon o ddatblygiadau ar y gweill.

3.14 Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i roi cyfarwyddyd i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir, cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ynghylch ymrwymo i drefniadau cydweithio.

# Atodiad A: Adroddiad ar arlwy'r cwricwla lleol yng Nghyfnod Allweddol 4[20]

Adroddiad ar arlwy'r cwricwla lleol: 2014–2015

Dyddiad yr adroddiad: Chwefror 2014

Enw'r Darparwr: ______________________________

Enw'r Rhwydwaith: ______________________________

| Mesur | Canlyniad | Bwriad | Cyflawni |
|---|---|---|---|
| Lleiafswm o 25 Dewis (Cyffredinol a Galwedigaethol Cyfunol) | 25 | 25 | Y |
| Lleiafswm o 3 Galwedigaethol | 7 | 3 | Y |



[20] Mae'r adroddiad esiampl yn arddangos y data gofynedig gan ddarparwyr, er nad yw'n cynnwys pob maes.

| Teitl y Cymhwyster | Dolen DAQW | Galwedigaethol (V) | Cyllidir drwy grant 14–19 | Iaith | Cyfraniad at y Dewis | Darparwr | Partneriaid Cydweithredol | Nifer y disgyblion sy'n dewis dilyn y cwrs hwn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Cemeg | 60056484 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Dylunio a Technoleg (Cynnyrch Graffig) | 50080751 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 mewn Dylunio a Tecnoleg (Defnyddiau Gwrthiannol) | 5008074X | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 mewn Ffiseg | 60055546 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 mewn Gwyddoniaeth A | 60010368 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 mewn Economeg y Cartref: Bwyd a Maeth | 60055716 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| OCR Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Addysg Gorfforol | 50046718 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| OCR Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Addysg Gorfforol (Cwrs Byr) | 50046482 | G | | W | 0 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 mewn Saesneg Iaith | 6007095X | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 mewn Llenyddiaeth Saesneg | 6009686X | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Ffrangeg | 60055662 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Almaeneg | 60055698 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC mewn Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Cerddoriaeth | 60056447 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Daearyddiaeth B | 60060815 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 mewn Hanes | 6010174X | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol B | 60055790 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol B (Cwrs Byr) | 60055479 | G | | W | 0 | Eich Ysgol | | |
| OCR Lefel 1/Lefel 2 mewn Celf a Dylunio | 50046810 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| CBAC Lefel 2 Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru | 5001805X | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| **Sgiliau Allweddol** | | | | | | | | |
| CBAC Lefel 2 Sgiliau Allweddol mewn Datrys Problemau | 10038346 | G | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| **Galwedigaethol** | | | | | | | | |
| Pearson Edexcel Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Cyfathrebu | 50075755 | V | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| AQA Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Celfyddydau Perfformio (Dyfarniad Dwbl) | 50044023 | V | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| AQA Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Celfyddydau Perfformio | 50044047 | V | | W | 0 | Eich Ysgol | | |
| Pearson BTEC Lefel 2 Tystysgrif mewn Adeiladwaith (QCF) | 50072389 | V | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| Pearson BTEC Lefel 2 Tystysgrif Estynedig mewn Peirianneg (QCF) | 50075779 | V | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| Pearson BTEC Lefel 2 Tystysgrif mewn Technoleg Cerbyd (QCF) | 60048542 | V | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| OCR Lefel 2 NVQ Tystysgrif mewn Ffrangeg (QCF) | 50101079 | V | | W | 1 | Eich Ysgol | | |
| OCR Lefel 2 NVQ Tystysgrif mewn Cymraeg (QCF) | 50121996 | V | | W | 1 | Eich Ysgol | | |

# Atodiad B: Rheoliadau

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

**2009 Rhif 3256 (Cy.284)**

**2009 No. 3256 (W.284)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009

The Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) Regulations 2009

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mewnosododd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1) ("y Mesur") ddarpariaethau newydd yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"). Mae Rhan 7 yn ymwneud â'r cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. O ganlyniad i Ran 1 o'r Mesur, caiff y cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru ei ehangu i gynnwys hawlogaethau disgyblion mewn cwricwlwm lleol yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth o ran llunio'r cwricwlwm lleol, y dewisiadau y caiff disgybl eu gwneud, penderfyniad y pennaeth o ran hawlogaeth, a phenderfyniad y pennaeth i ddileu hawlogaeth.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod lleol lunio un cwricwlwm lleol neu fwy ar gyfer ei ardal mewn da bryd i alluogi disgyblion i ddewis dilyn cwrs astudio yn unol â rheoliad 8.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer isafswm o gyrsiau a chyrsiau galwedigaethol i gael eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol. Erbyn blwyddyn ysgol 2012-2013 rhaid i bob cwricwlwm lleol gynnwys o leiaf 30 o gyrsiau astudio ar lefel 2 NQF, y mae'n rhaid i o leiaf 5 ohonynt fod yn rhai galwedigaethol.

Mae rheoliad 5 yn darparu bod yn rhaid i bob cwricwlwm lleol gael gwerth lleiafswm o bwyntiau. Os bydd cwricwlwm yn cynnwys 30 o gyrsiau astudio rhaid bod gan y cyrsiau hynny werth pwyntiau cyfunol nad yw'n llai na 780. Pennir y gwerth pwyntiau ar gyfer pob cwrs astudio yn y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwyedig yng Nghymru (www.daqw.org.uk).

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

The Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1) ("the Measure") inserted new provisions into Part 7 of the Education Act 2002 ("the 2002 Act"). Part 7 concerns the curriculum in maintained schools in Wales. As a result of Part 1 of the Measure the curriculum in maintained secondary schools in Wales is expanded to include the local curriculum entitlements of pupils in key stage 4. These Regulations make provision as to the formation of the local curriculum, the elections a pupil may make, the head teacher's decision as to entitlement, and the head teacher's decision to remove an entitlement.

Regulation 3 provides that a local authority must form one or more local curricula for its area in sufficient time to enable pupils to elect to follow a course of study in accordance with regulation 8.

Regulation 4 provides for a minimum number of courses and vocational courses to be included in a local curriculum. By the school year 2012-2013 all local curricula must contain at least 30 courses of study at NQF level 2, of which at least 5 must be vocational.

Regulation 5 provides that each local curriculum must have a minimum points value. Where a curriculum consists of 30 courses of study such courses must have a combined points value of no less than 780. The points value for each course of study is set out in the Database of Approved Qualifications in Wales (www.daqw.org.uk). Regulation 6 provides for the

Mae rheoliad 6 yn darparu ar gyfer gwerth lleiafswm o bwyntiau i gyrsiau galwedigaethol a gaiff eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol. Os bydd cwricwlwm lleol yn cynnwys 5 o gyrsiau galwedigaethol rhaid iddynt gael gwerth pwyntiau cyfunol nad yw'n llai na 260.

Mae rheoliad 7 yn darparu na chaiff disgybl ddewis dilyn cwrs neu gyrsiau astudio os yw cyfanswm pwyntiau cwrs neu gyrsiau o'r fath yn fwy na 180. Rhaid i'r dewis hwnnw gael ei wneud yn ystod tymor y gwanwyn yn y flwyddyn o flaen honno pan fydd y disgybl yn mynd i gyfnod allweddol 4 (rheoliad 8).

Mae rheoliad 9 yn darparu ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn gan y pennaeth pan fydd yn penderfynu, yn unol ag adran 116F(1) o Ddeddf 2002, p'un a oes hawlogaeth gan y disgybl i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio. Mae rheoliad 9 hefyd yn darparu ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn os bydd disgybl yn dymuno gofyn i'r pennaeth adolygu ei benderfyniad o dan adran 116F(1) o Ddeddf 2002.

Mae rheoliad 10 yn darparu ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn gan y pennaeth pan fydd yn penderfynu, yn unol ag adran 116H(1) o Ddeddf 2002, nad oes bellach gan ddisgybl hawlogaeth i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio. Mae rheoliad 10 hefyd yn darparu ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn os bydd disgybl yn dymuno gofyn i'r pennaeth adolygu ei benderfyniad o dan adran 116H(1) o Ddeddf 2002.

Mae rheoliad 11 yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu'r terfynau amser i hysbysiadau o dan y Rheoliadau hyn.

minimum points value of vocational courses included in a local curriculum. Where a local curriculum consists of 5 vocational courses they must have a combined points value of no less than 260.

Regulation 7 provides that a pupil may not elect to follow a course or courses of study if the aggregate points of such a course or courses exceed 180. Such election must be made during the spring term in the year preceeding that which the pupil enters key stage 4 (regulation 8).

Regulation 9 provides for the procedure to be followed by the head teacher when he or she determines, pursuant to section 116F(1) of the 2002 Act, whether the pupil is entitled to follow a course or courses of study. Regulation 9 also provides for the procedure to be followed if a pupil wishes to request the head teacher to review his or her determination under section 116F(1) of the 2002 Act.

Regulation 10 provides for the procedure to be followed by the head teacher when he or she determines, pursuant to section 116H(1) of the 2002 Act, whether the pupil is no longer entitled to follow a course or courses of study. Regulation 10 also provides for the procedure to be followed if a pupil wishes to request the head teacher to review his or her determination under section 116H(1) of the 2002 Act.

Regulation 11 makes provision for determining the time limits for notices under these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

## 2009 Rhif 3256 (Cy.284)

## ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Rhagfyr 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *10 Rhagfyr 2009* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 116A(5), 116D(2), 116F(3), 116H(3), a 210 o Ddeddf Addysg 2002(1) yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009 ac maent yn dod i rym ar 1 Ionawr 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn–

mae "ardal awdurdodau lleol A" ("*local authority area A*") yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;

mae "ardal awdurdodau lleol B" ("*local authority area B*") yn cynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot,

(1) 2002 p.32. Mewnosodwyd adran 116A gan adran 4 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccs 1). Mewnosodwyd adran 116D gan adran 7 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Mewnosodwyd adran 116F gan adran 9 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a mewnosodwyd adran 116G gan adran 10 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

## 2009 No. 3256 (W.284)

## EDUCATION, WALES

# The Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) Regulations 2009

| | |
|---|---|
| *Made* | *8 December 2009* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *10 December 2009* |
| *Coming into force* | *1 January 2010* |

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 116A(5), 116D(2), 116F(3), 116H(3), and 210 of the Education Act 2002(1) make the following Regulations.

**Title, commencement and application**

**1.**–(1) The title of these Regulations is the Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) Regulations 2009 and they come into force on 1 January 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations–

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002;

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means a local education authority in Wales;

"local authority area A" ("*ardal awdurdodau lleol A*") consists of Blaenau Gwent County Borough Council, Caerphilly County Borough Council, Cardiff Council, Denbighshire County Council, Monmouthshire County Council, Newport City

(1) 2002 c.32. Section 116A was inserted by section 4 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1). Section 116D was inserted by section 7 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009. Section 116F was inserted by section 9 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 and section 116G was inserted by section 10 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009.

3

Cyngor Sir Penfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;

mae "ardal awdurdodau lleol C" ("*local authority area C*") yn cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Sir Powys;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw awdurdod addysg lleol yng Nghymru;

ystyr "cymhwyster sgil allweddol" ("*key skill qualification*") yw cymhwyster a restrir yn y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwyedig yng Nghymru(**1**) a gynhelir ac a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

mae i "disgybl cofrestredig" yr ystyr a roddir i "registered pupil" yn adran 434 o Ddeddf Addysg 1996(**2**);

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, nac yn ŵyl y banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**3**);

ystyr "NQF" ("*NQF*") yw'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol sy'n cynnwys cymwysterau wedi'u hachredu gan Weinidogion Cymru, yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm a'r Cyngor dros Gwricwlwm, Arholiadau ac Asesu yng Ngogledd Iwerddon;

ystyr "lefel NQF" ("*NQF level*") yw'r lefel neu lefelau yr achredir cymwysterau iddynt o fewn yr NQF;

ystyr "person perthnasol" ("*relevant person*") yw'r disgybl ynghyd â rhiant iddo;

ystyr "pwyntiau" ("*points*") yw'r pwyntiau a ddyrennir i gwrs neu gyrsiau astudio gan y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwyedig yng Nghymru;

ystyr "tymor y gwanwyn" ("*spring term*") yw'r ail dymor ysgol yn y flwyddyn ysgol yn yr ysgol y mae'r disgybl yn ddisgybl cofrestredig ynddi ac sy'n digwydd yn y flwyddyn ysgol yn union o flaen y flwyddyn ysgol pan fydd y disgybl yn mynd i gyfnod allweddol pedwar; ac

(1) Cyfeiriad y wefan ar gyfer y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwyedig yng Nghymru yw www.daqw.org.uk.

(2) 1996 p.56.

(3) 1971 p.80.

Council, City and County of Swansea Council, Vale of Glamorgan Council, Wrexham County Borough Council;

"local authority area B" ("*ardal awdurdodau lleol B*") consists of Carmarthenshire County Council, Neath Port Talbot County Borough Council, Pembrokeshire County Council, Rhondda Cynon Taff County Borough Council, Torfaen County Borough Council;

"local authority area C" ("*ardal awdurdodau lleol C*") consists of Isle of Anglesey County Council, Bridgend County Borough Council, Ceredigion County Council, Conwy County Borough Council, Flintshire County Council, Gwynedd Council, Merthyr Tydfil County Borough Council, Powys County Council;

"key skill qualification" ("*cymhwyster sgil allweddol*") means a qualification listed as such in the Database of Approved Qualifications in Wales(**1**) maintained and published by the Welsh Ministers from time to time;

"NQF" ("*NQF*") means the National Qualifications Framework comprising qualifications accredited by the Welsh Ministers, the Qualifications and Curriculum Authority and the Council for the Curriculum, Examinations and Assessment in Northern Ireland;

"NQF level" ("*lefel NQF*") means the level or levels to which qualifications are accredited within the NQF;

"points" ("*pwyntiau*") means the points allocated to a course or courses of study by the Database of Approved Qualifications in Wales;

"registered pupil" ("*disgybl cofrestredig*") has the same meaning as in section 434 of the Education Act 1996(**2**);

"relevant person" ("*person perthnasol*") means both the pupil and a parent of his or hers;

"spring term" ("*tymor y gwanwyn*") means the second school term in the school year for the school at which the pupil is a registered pupil and which occurs in the school year immediately before the school year in which the pupil will enter the fourth key stage;

"summer term" ("*tymor yr haf*") means the third school term in school year for the school at which the pupil is a registered pupil and which occurs in the school year immediately before the school year in which the pupil will enter the fourth key stage; and

(1) The website address for the Database of Approved Qualifications in Wales is www.daqw.org.uk.

(2) 1996 c.56.

ystyr "tymor yr haf" ("*summer term*") yw'r trydydd tymor ysgol yn y flwyddyn ysgol yn yr ysgol y mae'r disgybl yn ddisgybl cofrestredig ynddi ac sy'n digwydd yn y flwyddyn ysgol yn union o flaen y flwyddyn ysgol pan fydd y disgybl yn mynd i gyfnod allweddol pedwar.

**Llunio'r cwricwlwm lleol**

**3**. Rhaid i awdurdod lleol lunio ar gyfer ei ardal un cwricwlwm lleol neu fwy yn unol ag adran 116A o Ddeddf 2002 a'r Rheoliadau hyn mewn da bryd cyn dechrau'r flwyddyn ysgol i alluogi disgyblion i ddewis dilyn cwrs astudio yn unol â rheoliad 8.

**Lleiafswm cyrsiau astudio mewn cwricwla lleol**

**4**.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) rhaid i'r cwricwlwm lleol ar gyfer pob ysgol uwchradd a gynhelir yn ardal awdurdodau lleol A ar gyfer y flwyddyn ysgol 2010 i 2011 a phob blwyddyn ysgol wedyn gynnwys lleiafswm o 30 o gyrsiau astudio ar lefel 2 NQF, y mae'n rhaid i o leiaf 5 ohonynt fod yn rhai galwedigaethol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) rhaid i'r cwricwlwm lleol ar gyfer pob ysgol uwchradd a gynhelir yn ardal awdurdodau lleol B gynnwys–

(a) ar gyfer y flwyddyn ysgol 2010 i 2011 lleiafswm o 28 o gyrsiau astudio ar lefel 2 NQF, y mae'n rhaid i o leiaf 4 ohonynt fod yn rhai galwedigaethol; a

(b) ar gyfer pob blwyddyn ysgol wedyn lleiafswm o 30 o gyrsiau astudio ar lefel 2 NQF, y mae'n rhaid i o leiaf 5 ohonynt fod yn rhai galwedigaethol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) rhaid i'r cwricwlwm lleol ar gyfer pob ysgol uwchradd a gynhelir yn ardal awdurdodau lleol C gynnwys–

(a) ar gyfer y flwyddyn ysgol 2010 i 2011 lleiafswm o 26 o gyrsiau astudio ar lefel 2 NQF, y mae'n rhaid i o leiaf 4 ohonynt fod yn rhai galwedigaethol;

(b) ar gyfer y flwyddyn ysgol 2011 i 2012 lleiafswm o 28 o gyrsiau astudio ar lefel 2 NQF, y mae'n rhaid i o leiaf 4 ohonynt fod yn rhai galwedigaethol; ac

(c) am bob blwyddyn ysgol wedyn lleiafswm o 30 o gyrsiau astudio ar lefel 2 NQF, y mae'n rhaid i o leiaf 5 ohonynt fod yn rhai galwedigaethol.

(4) Caiff awdurdod lleol gynnwys cwrs astudio ar lefel 1 NQF yn hytrach na chwrs ar lefel 2 NQF yn y cwricwlwm lleol ar gyfer ysgol uwchradd a gynhelir o fewn ei ardal os nad yw'r cwrs hwnnw ar gael ar lefel 2 NQF i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol pedwar.

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means any day other than a Saturday, a Sunday or a day which is a bank holiday within the meaning of the Banking and Financial Dealings Act 1971(1).

**Formation of local curriculum**

**3**. A local authority must form for its area one or more local curricula in accordance with section 116A of the 2002 Act and these Regulations in sufficient time before the start of a school year to enable pupils to elect to follow a course of study in accordance with regulation 8.

**Minimum number of courses of study of local curricula**

**4**.–(1) Subject to paragraph (4) the local curriculum for every maintained secondary school in local authority area A for the school year 2010 to 2011 and every subsequent school year must include a minimum of 30 courses of study at NQF level 2, of which at least 5 must be vocational.

(2) Subject to paragraph (4) the local curriculum for every maintained secondary school in local authority area B must include–

(a) for the school year 2010 to 2011 a minimum of 28 courses of study at NQF level 2, of which at least 4 must be vocational; and

(b) for every subsequent school year a minimum of 30 courses of study at NQF level 2, of which at least 5 must be vocational.

(3) Subject to paragraph (4) the local curriculum for every maintained secondary school in local authority area C must include–

(a) for the school year 2010 to 2011 a minimum of 26 courses of study at NQF level 2, of which at least 4 must be vocational;

(b) for the school year 2011 to 2012 a minimum of 28 courses of study at NQF level 2, of which at least 4 must be vocational; and

(c) for every subsequent school year a minimum of 30 courses of study at NQF level 2, of which at least 5 must be vocational.

(4) A local authority may include a course of study at NQF level 1 instead of a course at NQF level 2 in the local curriculum for a maintained secondary school in its area if the same course is not available at NQF level 2 for pupils in the fourth key stage.

(1) 1971 c.80.

(5) Rhaid i'r lleiafswm o gyrsiau astudio galwedigaethol sy'n ofynnol gan baragraffau (1), (2) a (3) ddod o fewn o leiaf 3 o'r meysydd dysgu.

(5) The minimum number of vocational courses of study required by paragraphs (1), (2) and (3) must fall within at least 3 of the learning domains.

**Lleiafswm pwyntiau cyrsiau astudio mewn cwricwla lleol**

**Minimum number of points of courses of study of local curricula**

**5.**–(1) Os bydd cwricwlwm lleol yn cynnwys 26 neu 27 o gyrsiau astudio rhaid bod gan y cyrsiau hynny werth pwyntiau cyfunol nad yw'n llai na 680 o bwyntiau.

**5.**–(1) Where a local curriculum consists of 26 or 27 courses of study such courses must have a combined points value of no less than 680 points.

(2) Os bydd cwricwlwm lleol yn cynnwys 28 neu 29 o gyrsiau astudio rhaid bod gan y cyrsiau hynny werth pwyntiau cyfunol nad yw'n llai na 720 o bwyntiau.

(2) Where a local curriculum consists of 28 or 29 courses of study such courses must have a combined points value of no less than 720 points.

(3) Os bydd cwricwlwm lleol yn cynnwys 30 neu fwy o gyrsiau astudio rhaid bod gan y cyrsiau hynny werth pwyntiau cyfunol nad yw'n llai na 780 o bwyntiau.

(3) Where a local curriculum consists of 30 or more courses of study such courses must have a combined points value of no less than 780 points.

**Lleiafswm pwyntiau cyrsiau astudio galwedigaethol mewn cwricwla lleol**

**Minimum number of points of vocational courses of study of local curricula**

**6.**–(1) Os bydd cwricwlwm lleol yn cynnwys 4 o gyrsiau astudio galwedigaethol rhaid bod gan y cyrsiau hynny werth pwyntiau cyfunol nad yw'n llai na 220 o bwyntiau.

**6.**–(1) Where a local curriculum consists of 4 vocational courses of study such courses must have a combined points value of no less than 220 points.

(2) Os bydd cwricwlwm lleol yn cynnwys 5 o gyrsiau astudio galwedigaethol neu fwy rhaid bod gan y cyrsiau hynny werth pwyntiau cyfunol nad yw'n llai na 260 o bwyntiau.

(2) Where a local curriculum consists of 5 or more vocational courses of study such courses must have a combined points value of no less than 260 points.

**Dewisiadau disgybl o gyrsiau cwricwlwm lleol**

**Pupil's choices of local curriculum courses**

**7.** Ni chaiff disgybl ddewis dilyn cwrs neu gyfuniad o gyrsiau astudio o fewn cwricwlwm lleol os yw cyfanswm pwyntiau'r cwrs hwnnw neu'r cyfuniad hwnnw o gyrsiau astudio yn fwy na 180 o bwyntiau heb gynnwys unrhyw bwyntiau a ddyrannwyd i gwrs neu gyrsiau astudio sy'n arwain at gymhwyster sgil allweddol y mae disgybl wedi dewis ei ddilyn.

**7.** A pupil may not elect to follow a course or a combination of courses of study within a local curriculum if the aggregate points of such a course or such combination of courses of study exceed 180 points excluding any points allotted to a course or courses of study leading to a key skill qualification which a pupil has elected to follow.

**Hyd y cyfnod pan fo'n rhaid i'r disgybl ddewis**

**Period during which a pupil's election must be made**

**8.** Rhaid i ddisgybl ddewis dilyn cwrs neu gyrsiau astudio o fewn cwricwlwm lleol yn ystod tymor y gwanwyn.

**8.** A pupil must elect to follow a course or courses of study within a local curriculum during the spring term.

**Penderfyniad y pennaeth ynghylch hawlogaeth**

**Head teacher's decision as to entitlement**

**9.**–(1) Os bydd pennaeth yn penderfynu o dan adran 116F(1) o Ddeddf 2002 nad oes hawlogaeth gan ddisgybl i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio rhaid iddo wneud hynny o fewn 28 o ddiwrnodau gwaith ar ôl dechrau tymor yr haf.

**9.**–(1) Where a head teacher decides under section 116F(1) of the 2002 Act that a pupil is not entitled to follow a course or courses of study he or she must do so within 28 working days following the start of the summer term.

(2) Os bydd pennaeth yn penderfynu hynny rhaid iddo o fewn 3 diwrnod gwaith o'r penderfyniad hwnnw hysbysu'r person perthnasol yn ysgrifenedig o'r materion canlynol–

(2) Where a head teacher so decides he or she must within 3 working days of that decision inform the relevant person in writing of the following matters–

(a) y penderfyniad a'r rhesymau drosto;

(a) of the decision and the reasons for it;

6

(b) y caiff y person perthnasol wneud cais i'r pennaeth adolygu'r penderfyniad hwnnw;

(c) o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid gwneud cais o'r fath; ac

(ch) y caiff y person perthnasol wneud sylwadau yn ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw i'r pennaeth.

(3) Rhaid i gais gan berson perthnasol o dan baragraff (2)(b) ac unrhyw sylwadau o dan baragraff (2)(ch) gael eu gwneud o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl iddo dderbyn hysbysiad y pennaeth o'i benderfyniad.

(4) Os bydd person perthnasol yn gwneud cais o dan baragraff (2)(b) i bennaeth adolygu ei benderfyniad rhaid i'r pennaeth wneud dyfarniad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl iddo dderbyn y cais ac wrth iddo wneud hynny rhaid iddo ystyried–

(a) o dan ba amgylchiadau y cafodd ei benderfyniad ei wneud;

(b) unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan berson perthnasol ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw; ac

(c) unrhyw amgylchiadau eraill y mae o'r farn eu bod yn berthnasol.

(5) Rhaid i'r pennaeth o fewn 3 diwrnod gwaith o'i ddyfarniad yn unol â pharagraff (4), hysbysu'r person perthnasol yn ysgrifenedig ohono a'r rhesymau drosto.

(6) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys yn unig o ran y dewisiad cyntaf y mae disgybl yn ei wneud o dan adran 116D(1) o Ddeddf 2002 yn unol â rheoliad 7 (ac nid o ran unrhyw ddewisiad wedyn).

**Penderfyniad pennaeth i ddileu hawlogaeth**

**10.**–(1) Os bydd pennaeth yn penderfynu o dan adran 116H(1) o Ddeddf 2002 nad oes bellach gan ddisgybl hawlogaeth i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio, rhaid iddo o fewn 3 diwrnod gwaith o'r penderfyniad hwnnw hysbysu'r person perthnasol o'r materion canlynol–

(a) y penderfyniad a'r rhesymau drosto;

(b) y caiff y person perthnasol wneud cais i'r pennaeth adolygu'r penderfyniad hwnnw;

(c) o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid gwneud cais o'r fath; ac

(ch) y caiff y person perthnasol wneud sylwadau yn ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw i'r pennaeth.

(2) Nid oes gan ddisgybl hawlogaeth i ddilyn y cwrs neu'r cyrsiau astudio ar ôl dyddiad penderfyniad y pennaeth o dan adran 116H(1) o Ddeddf 2002.

(3) Rhaid i gais gan berson perthnasol o dan baragraff (1)(b) ac unrhyw sylwadau o dan baragraff (1)(ch) gael eu gwneud o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl iddo dderbyn hysbysiad y pennaeth o'i benderfyniad.

(b) that the relevant person may request the head teacher review that decision;

(c) the period within which such a request must be made; and

(d) that the relevant person may make representations in writing about that decision to the head teacher.

(3) A request by a relevant person under paragraph (2)(b) and any representations under paragraph (2)(d) must be made within 5 working days of his or her receipt of notice of the head teacher's decision.

(4) Where a relevant person requests under paragraph (2)(b) that a head teacher review his or her decision the head teacher must make a determination within 10 working days of receipt of the request and in so doing he or she must consider–

(a) the circumstances in which his or her decision was made;

(b) any written representations made by a relevant person about that decision; and

(c) any other circumstances he or she considers relevant.

(5) The head teacher must within 3 working days of his or her determination pursuant to paragraph (4), inform the relevant person in writing of it and the reasons for it.

(6) This regulation applies only in relation to the first election a pupil makes under section 116D(1) of the 2002 Act in accordance with regulation 7 (and not in relation to any subsequent election).

**Head teacher's decision to remove an entitlement**

**10.**–(1) Where a head teacher decides under section 116H(1) of the 2002 Act that a pupil is no longer entitled to follow a course or courses of study, he or she must within 3 working days of that decision inform the relevant person of the following matters–

(a) of the decision and the reasons for it;

(b) that the relevant person may request the head teacher review that decision;

(c) the period within which such a request must be made; and

(d) that the relevant person may make representations in writing about that decision to the head teacher.

(2) A pupil is not entitled to follow the course or courses of study from the date of the head teacher's decision under section 116H(1) of the 2002 Act.

(3) A request by a relevant person under paragraph (1)(b) and any representations under paragraph (1)(d) must be made within 5 working days of his or her receipt of notice of the head teacher's decision.

(4) Os bydd person perthnasol yn gwneud cais o dan baragraff (1)(b) i bennaeth adolygu ei benderfyniad rhaid i'r pennaeth wneud dyfarniad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl iddo dderbyn y cais ac wrth iddo wneud hynny rhaid iddo ystyried–

(a) o dan ba amgylchiadau y cafodd ei benderfyniad ei wneud;

(b) unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan berson perthnasol ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw; ac

(c) unrhyw amgylchiadau eraill y mae o'r farn eu bod yn berthnasol.

(5) Rhaid i'r pennaeth o fewn 3 diwrnod gwaith o'i ddyfarniad yn unol â pharagraff (4), hysbysu'r person perthnasol yn ysgrifenedig ohono a'r rhesymau drosto.

**Terfynau amser a hysbysiadau'n hepgor yr hawl i gael adolygiad**

**11.** At ddibenion cyfrifo'r cyfnodau y cyfeirir atynt yn rheoliadau 9(2), (3), (4) a (5) a 10(1), (3), (4) a (5), bernir bod yr hysbysiad wedi ei roi i'r person o dan sylw–

(a) os defnyddir y post dosbarth cyntaf, ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad ei bostio;

(b) os caiff yr hysbysiad ei draddodi â llaw, ar ddyddiad ei draddodi;

(c) os defnyddir post electronig, ar y dyddiad y caiff ei anfon,

oni ddangosir i'r gwrthwyneb.

(4) Where a relevant person requests under paragraph (1)(b) that a head teacher review his or her decision, the head teacher must make a determination within 10 working days of receipt of the request and in so doing he or she must consider–

(a) the circumstances in which his or her decision was made;

(b) any written representations made by a relevant person about that decision; and

(c) any other circumstances he or she considers relevant.

(5) The head teacher must within 3 working days of his or her determination pursuant to paragraph (4), inform the relevant person in writing of it and the reasons for it.

**Time limits and notices waiving right to review**

**11.** For the purpose of calculating the periods referred to in regulations 9(2), (3), (4) and (5) and 10(1), (3), (4) and (5), the notice is to be taken to have been given to the person in question–

(a) where the first class post is used, on the second working day after the date of posting;

(b) where the notice is delivered by hand, on the date of delivery;

(c) where electronic mail is used, on the date of sending,

unless the contrary is shown.

*John Griffiths*

Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, o dan awdurdod y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

8 Rhagfyr 2009

Deputy Minister for Skills under authority of the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, one of the Welsh Ministers

8 December 2009

© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£5.50

W3##/12/09 ON

*Argraffwyd yr Offeryn Statudol hwn yn lle'r OS sy'n dwyn yr un rhif ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2014 Rhif 42 (Cy. 4)**

## ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) (Diwygio) 2014

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mewnosododd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1) ddarpariaethau newydd yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002. Mae Rhan 7 yn ymwneud â'r cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. O ganlyniad i Ran 1 o'r Mesur, mae'r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru wedi ei ehangu i gynnwys hawlogaethau disgyblion mewn cwricwlwm lleol yng nghyfnod allweddol 4.

Gwnaeth Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009 ("Rheoliadau 2009") ddarpariaeth o ran llunio'r cwricwlwm lleol, y dewisiadau y caiff disgybl eu gwneud, penderfyniad y pennaeth o ran hawlogaeth, a phenderfyniad y pennaeth i ddileu hawlogaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2009 fel bod rhaid i awdurdod lleol gynnwys lleiafswm o 25 o gyrsiau yn ei gwricwlwm lleol, y mae rhaid i 3 ohonynt fod yn rhai galwedigaethol (rheoliad 2(a)). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diddymu rheoliadau 5 i 7 o Reoliadau 2009 fel nad oes gofyniad bellach i gyrsiau astudio yn y cwricwlwm lleol, na dewis y disgybl o gyrsiau cwricwlwm lleol, gael gwerth lleiafswm o bwyntiau (rheoliad 2(b)).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dileu'r geiriau diangen ym mhennawd rheoliad 11 o Reoliadau 2009 (rheoliad 2(c)).

*This Statutory Instrument has been printed in substitution of the SI of the same number and is being issued free of charge to all known recipients of that Statutory Instrument.*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

**2014 No. 42 (W. 4)**

## EDUCATION, WALES

# The Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) (Amendment) Regulations 2014

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1) inserted new provisions into Part 7 of the Education Act 2002. Part 7 concerns the curriculum in maintained schools in Wales. As a result of Part 1 of the Measure the curriculum in maintained secondary schools in Wales is expanded to include the local curriculum entitlements of pupils in key stage 4.

The Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) Regulations 2009 ("the 2009 Regulations") made provision as to the formation of the local curriculum, the elections a pupil may make, the head teacher's decision as to entitlement, and the head teacher's decision to remove an entitlement.

These Regulations amend the 2009 Regulations so that the minimum number of courses that a local authority must include in its local curriculum are 25, of which 3 must be vocational (regulation 2(a)). These Regulations also repeal regulations 5 to 7 of the 2009 Regulations so that there is no longer a requirement for courses of study in the local curriculum, nor for a pupil's choices of local curriculum courses, to have a minimum points value (regulation 2(b)).

These Regulations also remove unnecessary wording in the heading to regulation 11 of the 2009 Regulations (regulation 2(c)).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2014 Rhif 42 (Cy. 4)

## ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Ionawr 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *15 Ionawr 2014* |
| *Yn dod i rym* | *5 Chwefror 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 116A(5), 116D(2) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) (Diwygio) 2014 a deuant i rym ar 5 Chwefror 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009**

**2.** Mae Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn lle rheoliad 4 rhodder—

(1) 2002 p.32. Mewnosodwyd adran 116A gan adran 4 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1). Mewnosodwyd adran 116D gan adran 7 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

(2) O.S. 2009/3256 (Cy.284), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy.101) ac O.S. 2010/2431 (Cy.209).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2014 No. 42 (W. 4)

## EDUCATION, WALES

## The Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) (Amendment) Regulations 2014

| | |
|---|---|
| *Made* | *13 January 2014* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *15 January 2014* |
| *Coming into force* | *5 February 2014* |

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 116A(5), 116D(2) and 210 of the Education Act 2002(**1**) make the following Regulations.

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) (Amendment) Regulations 2014 and they come into force on 5 February 2014.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Amendment of the Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) Regulations 2009**

**2.** The Education (Local Curriculum for Pupils in Key Stage 4) (Wales) Regulations 2009(**2**) are amended as follows—

(a) for regulation 4 substitute—

(1) 2002 c.32. Section 116A was inserted by section 4 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1). Section 116D was inserted by section 7 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009.

(2) S.I. 2009/3256 (W.284), as amended by S.I. 2010/1142 (W.101) and S.I. 2010/2431 (W.209).

"Lleiafswm cyrsiau astudio mewn cwricwla lleol

4.—(1) Rhaid i'r cwricwlwm lleol ar gyfer pob ysgol uwchradd a gynhelir yng Nghymru gynnwys lleiafswm o 25 o gyrsiau astudio ar lefel 2 NQF, y mae'n rhaid i o leiaf 3 ohonynt fod yn rhai galwedigaethol.

(2) Caiff awdurdod lleol gynnwys cwrs astudio ar lefel 1 NQF yn hytrach na chwrs ar lefel 2 NQF yn y cwricwlwm lleol ar gyfer ysgol uwchradd a gynhelir o fewn ei ardal os nad yw'r un cwrs ar gael ar lefel 2 NQF i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol pedwar.";

(b) hepgorer rheoliadau 5 i 7; ac

(c) yn mhennawd rheoliad 11 hepgorer "a hysbysiadau'n hepgor yr hawl i gael adolygiad".

"Minimum number of courses of study of local curricula

4.—(1) The local curriculum for every maintained secondary school in Wales must include a minimum of 25 courses of study at NQF level 2, of which at least 3 must be vocational.

(2) A local authority may include a course of study at NQF level 1 instead of a course at NQF level 2 in the local curriculum for a maintained secondary school in its area if the same course is not available at NQF level 2 for pupils in the fourth key stage.";

(b) omit regulations 5 to 7; and

(c) in the heading to regulation 11 omit "and notices waiving right to review".

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

13 Ionawr 2014

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

13 January 2014

© Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

# Atodiad C: Dogfennau cysylltiedig

## Dogfennau cysylltiedig

Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: (www.opsi.gov.uk/legislation/wales/mwa2009/ mwa_20090001_we_1)

Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009 www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2009/wsi_20093256_ we_1

Rheoliadau Cydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008: www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2008/wsi_20080168_ we_1

Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008: www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2008/wsi_20083082_we_1

Canllawiau ar y Trefniadau Cydlafurio rhwng Sefydliadau Addysg Bellach ac Ysgolion www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090227collaborationarrangementscym.pdf

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002

Canllawiau ar Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion 2006

Y Rhaglen Lywodraethu

Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith

Canllawiau Llwybrau Dysgu 14–19 II

Deddf Safonau a Threfnidiaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010)

Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?skip=1&lang=cy